

DATGANIAD AR FATERION CYLLIDOL

Mae'r datganiad hwn yn ganlyniad i waith dadansoddi a chynllunio sydd wedi ei gymeradwyo gan yr Is-banel Cyllid a'r corff llywodraethu.

Bydd nifer uwch y disgyblion ym Medi 2015 (134) yn cael effaith gadarnhaol ar gyllid yr ysgol ar gyfer 2015-16 sef llai o doriad nac y rhagwelwyd a gellir cynnal y lefel bresennol o staffio heb ddefnyddio arian wrth gefn (£26,722). Mae nifer sydd yn yr ysgol yn gostwng i 122 ym Medi 2016 sef - £26,400 yn y dyraniad oherwydd effaith niferoedd (1 plentyn= £2,200)

Mae'r cwmpwys tebygol yn nifer y disgyblion yn y ddwy flynedd nesaf (i lawr i 117 ac yna 112 cyn codi yn ôl i 122 ym Medi 2019.) yn mynd i gael effaith negyddol ar gyllideb yr ysgol. O gyplysu hyn gyda thoriadau arfaethedig o fewn yr awdurdod, rhagwelir y bydd yr ysgol mewn sefyllfa anodd erbyn y flwyddyn ariannol 2017-18. Bydd gofyn ad drefnu y dosbarthiadau ym Medi 2016 yn ôl i 4 dosbarth felly gan mai swydd blwyddyn dros dro ydi swydd Bl 4.

Hyderir y bydd arian wrth gefn yn gallu cynnal yr ysgol tan hynny.

Grantiau 2015-16

O Ebrill 1af 2015 bydd ysgolion yn derbyn cyfran o Grant Gwella Addysg . Bydd y grant hwn yn cyfuno'r holl grantiau canlynol oedd yn dod i awdurdodau ar wahân.

- Cyfnod Sylfaen
- Grant Effeithiolrwydd Ysgolion (GEY)
- Grant y Gymraeg mewn Addysg
- Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig
- Addysg Plant Sipsiwn a Phlant Teithwyr
- Sefydlu Athrawon Newydd Gymhwyso
- Cynorthwyr Addysgu Lefel Uwch
- Ysgolion Arweiniol a Datblygol
- Cefnogaeth i Brofion Darllen a Rhifedd

Mae disgwyliad i roi pwyslais ar y pedwar amcan strategol a amlinellir yn "Cymwys am Oes" a chefnogi tair blaenoriaeth LIC sef llythrennedd, rhifedd a thorri'r cyswllt rhwng anfantais a chyrhaeddiad addysgol. Bydd y grant yn weithredol am gyfnod o 3 blynedd.

Dyraniad yr ysgol hon ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf fydd **£9,484** Gweler cynllun gwariant isod.

Gwariant GGA 2015-16

Dyraniad £9,484

Dyraniad GAD £14,700

Maes	Gwariant
Codi safonau Llythrennedd , Rhifedd, TGCH, Y Gymraeg,	£4,744 GGA
Rhaglen herio a Chefnogi GwE	£2,160
Lleihau effaith tldi ac amddifadedd (GAD-	£14,380

cymorthyddion grwpiau targed) Cynhaliaeth gwersi offerynnol	£315
Adnewyddu adnoddau a sgiliau TGCH	£5055.50 GGA

Rhagolygon niferoedd disgyblion diweddaraf

Blwyddyn Academaidd	3	4	5	6	CYF	+/-	Dyranid Cyllid Ysgol ac effaith +/-	Effaith toriadau arfaethedig
2015-16	25	37	38	34	134	-4 -(£8800)	£518,564	
2016-17	22	25	37	38	122	-12 - (£26,400)	£492,164	
2017-18	33	22	25	37	117	-5 - (£11,000)	£481,164	
2018-19	32	33	22	25	112	-5 - (£11,000)	£470,164	

Ymrwymiad Llywodraethol a Chyllidol i flaenoriaethau'r CDY

Blaenoriaethau i'w datblygu	Dyddiad Arfarnu	Cost
1. Parhau i godi safonau rhifedd gweithdrefnol ac ymresymu'r disgyblion drwy'r ysgol.	Agweddau yn dymhorol	£2,600 (wedi ei ariannu gan Grant Gwella Addysg) £4,480 (grant GAD)
2. Parhau i gynnal a chodi y safonau uchel mewn sgiliau Llythrennedd ymhob dosbarth	Agweddau yn dymhorol	£5,880 (£4,480 wedi ei ariannu gan Grant GAD, gweddill gan grant GGA)
3. Datblygu sgiliau TGCH y dysgwyr fel eu bod yn hyderus gyda gwahanol gyfryngau o DGCH a gallu trosglwyddo'r sgiliau i wahanol sefyllfaoedd.	Agweddau yn dymhorol	£5055.50 (1,000 wedi ei ariannu Grant Gwella Addysg)
4. Asesu, dysgu ac addysgu.	Agweddau	£2,420 (GAD)

	yn dymhorol	
5. Gweithredu cynlluniau, prosiectau, meysydd a gweithgareddau sydd yn canolbwyntio ar lês	Agweddau yn dymhorol	£1,820 £900 (targedu grŵp sgiliau cymdeithasol) (o grant GADI)
6. Parhau i wella strwythurau arwain a rheoli yr ysgol trwy ddatblygu rolau arwain ac atebolrwydd staff a llywodraethwyr	Yn dymhorol	£900 (£471 wedi ei ariannu gan GGA)
Cyfanswm y cyllid a ddynodwyd		£26,654.50
Ariannu gan Grantiau		£23,470.50
Cyfanswm gwariant o gyllid ysgol		£3,184